

Lesley Griffiths AS/MS
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs



Ein cyf/Our ref MA/LG/0849/21

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mike Hedges AS
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

15 Mawrth 2021

Annwyl Mike,

Adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar gyfer Bil Amgylchedd y DU.

Diolch am eich llythyr dyddiedig 1 Chwefror ynghylch adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar gyfer Bil Amgylchedd y DU.

Rwy'n ddiolchgar am ystyriaeth ac argymhellion y Pwyllgor. Mae'n bleser gennyf dderbyn argymhellion y Pwyllgor a rhoi fy ymateb yn Atodiad A.

Hoffwn hefyd fanteisio ar y cyfle hwn i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am hynt Bil yr Amgylchedd. Aeth y Bil i'r Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin ar 26 Ionawr. Hefyd ar 26 Ionawr, cytunwyd y byddai'r Bil yn cael ei gario drosodd i'r sesiwn Seneddol nesaf. Nid oes rhagor o wybodaeth ar gael ar hyn o bryd ynghylch pa bryd y bydd y Cyfnod Adrodd yn aildechrau.

Cofion,

Lesley Griffiths AS/MS
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ATODIAD A:

Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig o'r enw Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar gyfer y Bil Amgylchedd.

<p>Argymhelliad 1</p> <p>Cyn y ddatl ar y cynnig cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer y Bil, dylai'r Gweinidog roi esboniad manylach ynghylch pam mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol defnyddio'r Bil i ddeddfu ar gyfer defnyddio nwyddau coedwigoedd mewn gweithgareddau masnachol mewn perthynas â Chymru.</p>	<p>Ymateb: Derby</p> <p>Er mai fy safbwynt i o hyd yw bod y cymalau hyn yn dod o fewn cymhwysedd datganoledig, fel y nodais yn fy llythyr dyddiedig 13 Ionawr, rwyf serch hynny yn cefnogi'r polisi ac yn cytuno bod dull gweithredu ledled y DU yn briodol yn y cyd-destun hwn. Nid ydym yn credu y byddai'n briodol disgwyl i'r nifer fach o fusnesau mwy y bydd y rheoliad hwn yn effeithio arnynt allu gweithio gyda phroses wahanol yng Nghymru o'i gymharu â rhannau eraill o'r DU. Byddai hyn yn arwain at gostau busnes uwch yn ddiangen o ganlyniad i gydymffurfio â mwy nag un set o brosesau.</p> <p>O ystyried bod dull gweithredu ledled y DU yn briodol, felly, mae angen system weinyddol gyffredin. Mae bwrw ymlaen â darpariaeth yn y modd hwn yn darparu rhagweladwyedd ac yn osgoi ansicrwydd i fusnesau sy'n gweithredu yng Nghymru a Lloegr. Mae hyn yn golygu bod pwerau o'r fath yn fwyaf effeithiol a phriodol pan gaiff eu darpariaeth ei datblygu ar yr un pryd, yn yr un offeryn deddfwriaethol.</p> <p>Goblygiadau Ariannol</p> <p>Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn.</p>
<p>Argymhelliad 2</p> <p>Cyn y ddatl ar y cynnig cydsyniad deddfwriaethol, dylai'r Gweinidog nodi pam nad yw o'r farn bod angen i'r Bil sicrhau bod gan Weinidogion Cymru gyfranogiad wrth i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau o dan Atodlen 16.</p>	<p>Ymateb: Derby</p> <p>Yr wyf innau, fel y Pwyllgor, yn siomedig â methiant Llywodraeth y DU i gydnabod ein cymhwysedd yn y maes hwn. Serch hynny, eu safbwynt o hyd yw nad yw'r darpariaethau hyn yn dod o fewn cymhwysedd datganoledig. Mae'n dilyn nad ydynt yn derbyn bod gan Weinidogion Cymru rôl wrth wneud y rheoliadau o dan Atodlen 16.</p> <p>Fodd bynnag, bu ymgynghori ar ddatblygu'r polisi gyda'r gwledydd datganoledig ac, fel y nodais yn fy ymateb ar 13 Ionawr, bydd deialog barhaus wrth i'r manylion ynghylch sut y bydd y mesurau hyn yn gweithredu gael eu datblygu.</p>

Rydym wedi gofyn am ymrwymiad Gweinidogol gan DEFRA yr ymgysylltir â ni cyn yr ymgynghoriad ar yr is-ddeddfwriaeth a ddisgwylir yn ddiweddarach eleni.

Goblygiadau Ariannol

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn.